

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â golygu deunydd sain i ateb gofynion cynhyrchu.

Mae'n golygu asesu deunydd i benderfynu pa fath o ddulliau golygu y dylid eu defnyddio, ac ymdrin ag anawsterau wrth lunio'r golygiad gofynnol. Mae'n ymwneud â dethol pwyntiau golygu priodol, gwneud diwygiadau sy'n dechnegol gywir, asesu golygiadau gorffenedig, a'u cwblhau yn erbyn y dyddiadau cau a roddwyd i chi. Weithiau mae'n bosibl y byddwch yn gweithio i derfynau amser tynn ac o dan bwysau.

Dylai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â golygu sain.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. canfod y gofynion technegol, creadigol a masnachol ar gyfer golygu sain o ffynonellau dibynadwy
2. cynnal asesiad cywir o'r deunydd er mwyn penderfynu ar y math o ddull golygu i'w gyflawni
3. esbonio wrth bobl berthnasol beth yw goblygiadau recordio gyda thechnegau cywasgedd gostyngedig i'r deunydd gwreiddiol
4. awgrymu datrysiadau addas i'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn atal unrhyw anawsterau wrth gwblhau golygiadau arfaethedig
5. trefnu traciau a deunyddiau mewn modd priodol i gyflawni eich gwaith
6. dethol pwyntiau golygu sy'n creu trawsgyweiriadau gofynnol ac yn cynnig y potensial mwyaf i ateb gofynion cleientiaid neu'r cynhyrchiad
7. dethol pwyntiau golygu sy'n cyflawni'r hyd, y rhythm, y cyflymder, yr wybodaeth a'r cefndir gofynnol; a lluniau ategol pan fydd hynny'n briodol
8. defnyddio arddull golygu sy'n briodol i'r deunydd
9. cadw unrhyw gydamseru gofynnol yn y golygiad
10. dethol a marcio pwyntiau golygu mewn ffordd gywir a chlir
11. defnyddio'r math o ddull olygu sy'n briodol i ofynion
12. gwneud golygiadau sy'n dechnegol gywir, yn lân ac yn effeithiol yn artistig
13. cadarnhau bod golygiadau'n ateb gofynion cleientiaid neu'r cynhyrchiad
14. cwblhau'r golygu o fewn terfynau amser a chyllideb gytunedig
15. marcio unrhyw drimiau a deunydd crai sydd heb eu labelu yn unol â systemau'r cwmni, a'u storio fel y gellir cael hyd iddynt wedyn os oes angen
16. cadarnhau bod dulliau storio data golygu anhedol yn gyfredol
17. cadarnhau bod copïau angenrheidiol a gaiff eu harbed wrth gefn yn cael eu cadw, er mwyn cynnal uniondeb sain a data
18. cadarnhau bod deunydd gwreiddiol yn cael ei ddiogelu
19. cynhyrchu gwaith papur cywir a darllenadwy a labelu yn y fformat gofynnol
20. cynnal diogelwch ar gyfer ffeiliau a deunyddiau eraill yn unol â gofynion y cwmni

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1.
gofynion ôl-gynhyrchu'r cleient neu'r cynhyrchiad
2.
y deunydd sydd i'w olygu, beth yw'r gofynion golygu, a pha fathau o ddulliau golygu sy'n bosibl
3.
terfynau cyfreithiol a safonau ar gyfer ffeiliau sain i'w dosbarthu a'u darparu yn arbennig mewn perthynas ag uchder sain, sain drochol a metadata a sut i weithio'n greadigol o fewn iddynt
4.
pwysigrwydd gallu clywed deialog yn enwedig mewn perthynas â'r nam posibl ar glyw poblogaeth sy'n heneiddio
5.
strategaethau effeithiol i wella'r gallu i glywed deialog
6.
ble i gael hyd i ddeunyddiau crai
7.
yr amserlen a'r gyllideb ar gyfer y gwaith golygu
8.
y gofynion o ran dogfennaeth a fformat
9.
unrhyw ofynion cydamseru a'u goblygiadau yn y broses gynhyrchu
10.
y goblygiadau ar gyfer golygu lle mae sain yn cefnogi darlun
11.
meini prawf dethol pwyntiau golygu, a sut cânt eu defnyddio i nodi pwyntiau golygu
12.
meini prawf ar gyfer asesu effeithiolrwydd technegol ac artistig golygiadau
13.
graddau anhawster golygu, a sut i'w nodi a'u datrys
14.
y technegau golygu sy'n briodol i gyfryngau penodol
- 15.

goblygiadau golygu dinistriol ac anninistriol

16.

egwyddorion ADR (deialog ychwanegol wedi'i recordio)

17.

egwyddorion Foley

18.

mathau nodweddiadol o ddiffygion clywadwy mewn technolegau analog a digidol

19.

fformatau a thechnegau cyffredin ar gyfer lleihau data

20.

y goblygiadau ar gyfer defnyddio ac ymdrin â thechnegau cywasgedd data gostyngedig

21.

goblygiadau ar gyfer golygu gan ddefnyddio aml-drac, mono, stereo, neu aml-sianel

22.

ffurf gerddorol a dull enwi sylfaenol gan gynnwys nodyn, curiad, bar a brawddeg

23.

sut i reoli ac arbed sain a data wrth gefn

24.

sut i gydymffurfio â rhestrau golygu data a chyfryngau crai

25.

sut i ddiogelu metadata

26.

sut i adnabod triniau a deunyddiau crai sydd heb eu labelu, a sut i'w storio'n ddiogel

27.

pwysigrwydd gweithio'n ddiogel gyda sgriniau arddangos, a'r rheoliadau perthnasol

28.

egwyddorion electroneg sylfaenol fel y maent yn berthnasol i sain, gan gynnwys rhwystriant, rhwydweithiau gwanhau, pweru rhithiol a chymarebau signal i sŵn

29.

egwyddorion perthnasol acwsteg a sut maent yn berthnasol

30.

nodweddion perfformiad meicroffonau gan gynnwys: maint, pwysau, uchafswm lefel yr allbwn, patrwm codi, sensitifrwydd a rhagueddiad i ymdrin â sŵn

31.

nodweddion mwyaduron ac uwch-seinyddion

32.

y gwahanol fathau o offer recordio a chwarae yn ôl

33.

systemau'r cwmni ar gyfer storio, arbed copïau wrth gefn a diogelwch

SKSPP20



Golygu sain

Datblygwyd gan ScreenSkills

Dyddiad cymeradwyo 31 Ion 2017

Dyddiad Adolygu Dangosol 31 Ion 2020

Dilysrwydd Ar hyn o bryd

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Creative Skillset

RCU gwreiddiol SKSPP20

Galwedigaethau perthnasol Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu

Cyfres/Set Ôl-gynhyrchu

Geiriau Allweddol Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Sain, Golygu
